

Y defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc



Crynodeb gweithredol

Mae'r papur hwn yn adrodd ar ganlyniadau ymchwil a gynhaliwyd ar ran Comisiynydd y Gymraeg ynghylch defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Cwblhawyd holiadur gan dros 1600 o blant a phobl ifanc 11-21 oed ar hyd a lled Cymru, a chynhaliwyd 6 grŵp ffocws gyda phlant a phobl ifanc rhwng 13 a 18 oed. Mae'r ymchwil yn ceisio deall mwy am arferion ieithyddol plant a phobl ifanc wrth iddynt ymwneud â'u teuluoedd a'u ffrindiau; mewn gwahanol weithgareddau y tu allan i'r ysgol; wrth gyfathrebu ar lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, ac wrth dderbyn gwasanaethau.

Mae'r adran hon yn crynhoi prif ganfyddiadau'r ymchwil ac yn amlinellu goblygiadau hyn i waith Comisiynydd y Gymraeg yn ogystal â phartneriaid eraill sy'n gweithredu er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Yn dilyn y crynodeb gweithredol ceir dadansoddiad mwy manwl o'r canlyniadau, a gellir [pori'r data yn rhyngweithiol ar ein gwefan](#).

Dylid nodi bod yr ymchwil hwn wedi'i gomisiynu er mwyn hwyluso'r broses o lunio [Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2025-30](#). Mae'r cynllun strategol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 yn ymateb i brif gasgliadau a goblygiadau'r gwaith ymchwil hwn, ac yn amlinellu'r cyfraniad y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ei wneud er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Mae'r ymchwil hwn hefyd wedi bod yn sail tystiolaeth allweddol er mwyn llunio ein cynigion maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru yn 2026. Bydd ein dogfen maniffesto yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025.

Prif ganfyddiadau

- O edrych ar y sampl yn ei gyfanrwydd, mae'r defnydd cyffredinol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc y tu allan i'r gyfundrefn addysg yn gyfyngedig. Er hynny, mae'n bwysig cofio bod dros draean o'r sampl wedi derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn bennaf ac yn nodi nad oedden nhw yn siarad llawer o Gymraeg. Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, mae'r defnydd o'r Gymraeg yn isel iawn ymysg yr ymatebwyr hyn. **Mae'r ymchwil yn dangos bod y defnydd o'r Gymraeg yn llawer uwch ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd, a'r rhai sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.**
- Mae ymatebion plant a phobl ifanc i ddatganiadau amrywiol ynghylch y Gymraeg yn amlygu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg. Ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd, a'r rhai sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, **mae'r canlyniadau yn awgrymu eu bod yn hynod falch o'r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg, a'u bod ar y cyfan yn awyddus i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn eu bywydau.**
- Mae'r canlyniadau yn atgyfnerthu'r hyn y gwyddom eisoes ynghylch **perthynas rhuglder a lle/pryd wnaeth unigolion gaffael y Gymraeg.** Mae'r rhai sydd wedi dysgu'r Gymraeg fel plant ifanc ar yr aelwyd neu mewn ysgol feithrin yn llawer mwy tebygol o ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg rhugl, a hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol agweddau o'u bywydau.
- **Prif leoliad defnyddio'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yw mewn sefydliadau addysg.** Mae plant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol o **ddefnyddio'r Gymraeg gydag athrawon/darlithwyr na gydag aelodau o'u teulu a'u ffrindiau.** Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y gyfundrefn addysg o ran cynnig cyfleoedd i unigolion ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Y tu hwnt i'r gyfundrefn addysg mae siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r teulu na gyda'u ffrindiau.
- O ran **mynychu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol**, roedd y ganran o'r ymatebwyr oedd yn mynychu gweithgareddau chwaraeon yn sylweddol uwch nag unrhyw weithgaredd arall. Wrth wneud gweithgareddau chwaraeon mae plant a phobl ifanc hefyd fwyaf tebygol o fod yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyfforddwyr/arweinwyr a'u cyfoedion.
- Wrth **gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau drwy wahanol gyfryngau** (er enghraifft, neges destun, galwadau fideo ac ati) roedd tua 80% o'r sampl yn nodi mai prin iawn oedd eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau hyn yn cynyddu'n sylweddol o edrych ar y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Er enghraifft, ymysg siaradwyr Cymraeg a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd mae'r canlyniadau yn gwbl groes i'r sampl cyfan gyda dros 75% yn nodi y byddant yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg wrth anfon neges destun at deulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg.
- Mae defnydd ehangach plant a phobl ifanc o'r Gymraeg wrth **greu cynnwys ar lein ac ar wahanol gyfryngau cymdeithasol yn gyffredinol gyfyngedig.** Mae'n amlwg o'r canlyniadau bod plant a phobl ifanc yn gwneud defnydd sylweddol o'r cyfryngau hyn, ond i'r mwyafrif, Saesneg yw'r iaith y byddant yn ei defnyddio gan amlaf. Y prif resymau dros hyn oedd ei bod yn haws defnyddio'r Saesneg, bod eu ffrindiau yn defnyddio'r Saesneg, a bod modd cyrraedd cynulleidfa ehangach drwy ddefnyddio'r Saesneg.

- Ar y cyfan prin oedd y rhai oedd yn adrodd eu bod yn gwylio llawer o deledu 'byw', ac eithrio chwaraeon megis gemau pêl-droed a rygbi. Cyfeiriodd ymatebwyr at **ddiffyg darpariaeth a phresenoldeb Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, yn arbennig deunydd poblogaidd a fyddai'n apelio at bobl ifanc**. Er bod cryn dipyn o ymwybyddiaeth o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol sefydliadau megis S4C, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithasau Chwaraeon Cenedlaethol, rhai busnesau Cymraeg, a rhai unigolion oedd yn defnyddio Cymraeg – at ei gilydd roedd barn bod angen targedu deunyddiau a chyfrifon Cymraeg yn fwy effeithiol tuag at bobl ifanc.
- O ran **defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg**, mae plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o dderbyn cefnogaeth addysgiadol drwy gyfrwng y Gymraeg nag unrhyw fath arall o wasanaethau y gofynnwyd yn eu cylch. Ar y stryd fawr mae plant a phobl ifanc leiaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg. Thema amlwg o'r grwpiau ffocws oedd **pwysigrwydd gwasanaethau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg**, yn arbennig i siaradwyr Cymraeg rhugl.
- Mae cyfran yr ymatebwyr oedd yn nodi y byddant yn debygol o **ddefnyddio'r Gymraeg pe byddai'r gwasanaethau hynny ar gael yn Gymraeg yn hawdd** yn sylweddol uwch na'r ganran oedd yn nodi eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio amrywiol wasanaethau. Mae'r canlyniadau yn awgrymu'n gryf fod **diffyg cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol yn rhwystr rhag y defnydd ehangach o'r Gymraeg**. Rheswm arall dros y diffyg defnydd o'r Gymraeg oedd bod ymatebwyr yn gyndyn o gychwyn sgysiau yn Gymraeg neu i ofyn am wasanaeth Cymraeg gan eu bod yn teimlo yn anesmwyth yn gwneud hynny, neu fod dim pwynt achos ei bod yn annhebygol y byddai'r gwasanaeth ar gael yn Gymraeg.
- Roedd yr holiaduron yn amlygu **safbwyntiau negyddol gan gyfran leiafrifol**, ond eto sylweddol, o'r ymatebwyr ynghylch y Gymraeg. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn nodi nad oeddent â diddordeb yn y Gymraeg, ei bod yn wastraff amser, ac nad oedd yn berthnasol i'w bywydau nhw.

Goblygiadau i waith y Comisiynydd ac i bartneriaid allweddol eraill

- Mae'r ymchwil yn dangos bod **angen dwysáu ymdrechion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol**. Hyd yn oed ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sydd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd mae'r diffyg defnydd o'r Gymraeg yn destun pryder gwirioneddol. Mae'r ymdrechion sy'n bodoli i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg yn hanfodol, ond **mae angen yr un buddsoddiad a'r un pwyslais i sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i giatiau'r ysgol**.
- Mae'n angen i'r Llywodraeth barhau â'r gwaith o ystyried dulliau o newid agweddau ac ymddygiad er mwyn **annog mwy o blant a phobl ifanc i ystyried y Gymraeg fel rhywbeth sy'n perthyn iddyn nhw, ac mae angen taclo'r agweddau negyddol tuag at y Gymraeg sy'n bodoli ymysg rhai grwpiau o blant a phobl ifanc**. Rhan o'r ateb yn sicr yw cynnig gwell cyfleoedd i'r plant a phobl ifanc hyn ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r gyfundrefn addysg yn y lle cyntaf. Prin oedd y tystiolaeth o agweddau negyddol tuag at y Gymraeg ymysg y rhai oedd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg er enghraifft.
- Er bod angen annog pob plentyn a pherson ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw **mae'r canlyniadau yn amlygu bod her sylweddol i annog siaradwyr Cymraeg rhugl i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol**. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n rhugl yn y Gymraeg, sydd ag agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, ond sydd yn gwneud defnydd prin o'r iaith y tu allan i'r ysgol. **Nid yw hyder i ddefnyddio ymysg siaradwyr rhugl yn thema sydd yn cael ei ystyried yn ddigonol ar hyn o bryd. Mae angen mwy o sylw ar newid arferion ac ymddygiad siaradwyr Cymraeg rhugl, yn benodol o ran y tueddiad i newid i'r Saesneg yn ddiodyn**.
- Mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn atgyfnerthu casgliadau adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ynghylch yr **angen am fwy o gynllunio ieithyddol cymunedol egniol a phwrpasol**. Mae gwir angen gwell fframwaith cynllunio, ynghyd â mwy o fuddsoddiad ac adnoddau i sbarduno prosesau cynllunio ieithyddol ar lefel leol, a thrwy hynny **gynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg a chael profiadau diwylliannol, cymunedol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg**. Rhan allweddol o hyn fyddai cynyddu'r buddsoddiad sy'n cael ei ddyrannu i bartneriaid fel y mentrau iaith, clybiau chwaraeon, gwasanaethau ieuencid a gwahanol eisteddfodau a mentrau cymunedol. Dylid hefyd sicrhau bod cynlluniau strategol gwaith ieuencid fydd yn gorfod cael eu llunio gan awdurdodau lleol fel rhan o fframwaith statudol gwaith ieuencid yn canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Yn ogystal â chynyddu buddsoddiad i'r partneriaid sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg, dylid manteisio ar **botensial y safonau hybu, a'r dyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaethau 5 mlynedd ar gyfer hybu'r defnydd o'r Gymraeg, fel fframwaith i gydlyn cynllunio ieithyddol cymunedol**. Mae adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn dod i'r un casgliad, gan argymhell y dylid cryfhau'r safonau hybu er mwyn creu fframwaith fwy effeithiol ar gyfer cynllunio ieithyddol cymunedol.
- Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn ategu'r hyn a wyddom eisoes am **botensial neilltuol chwaraeon** fel cerbyd ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc. **Dylai'r Comisiynydd barhau i flaenoriaethu datblygu**

partneriaethau strategol gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n arwain yn y maes. Dylai Chwaraeon Cymru, cyrff rheoli chwaraeon, a phartneriaid eraill fel yr Urdd annog mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfranogi, wrth hyfforddi, ac wrth ddyfarnu a gweinyddu.

- Er bod heriau amlwg i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'n wir hefyd bod datblygiadau ym maes technoleg a deallusrwydd artiffisial yn cynnig cyfleoedd cyffrous i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae **sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys o fewn datblygiadau technoleg a deallusrwydd artiffisial** yn allweddol, ond mae hefyd angen **mwy o sylw ar addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o'r hyn sy'n bosib**. Dylid ystyried datblygu ymgyrchoedd penodol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo defnydd plant a phobl ifanc o dechnoleg ac deallusrwydd artiffisial drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod llawer o blant a phobl ifanc yn tybio bod defnyddio'r Gymraeg ar-lein ac mewn gwahanol gyfryngau yn drafferthus neu ddim yn bosib, er nad yw hyn o reidrwydd yn wir. **Gall technoleg a deallusrwydd artiffisial ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau, gan gynnwys wrth gyfathrebu gyda ffrindiau a chynulleidfaoedd sydd efallai ddim yn siarad Cymraeg.**
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae'r canlyniadau yn dangos **pwysigrwydd y cyfryngau digidol a darlledu ym mywydau plant a phobl ifanc heddiw**. Yn sicr mae heriau sylweddol i ddenu plant a phobl ifanc i wyllo, gwrando a darllen cynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig o ystyried dylanwad darlledu a'r cyfryngau Saesneg. Er hynny, mae tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn dymuno gwrando, gwylio, a darllen drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen felly **buddsoddi ymhellach er mwyn cynyddu'r gynulleidfa ac er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn diwallu anghenion a diddordebau siaradwyr Cymraeg ifanc**. Mae sefydliadau fel S4C a'r BBC eisoes yn ymwybodol o'r heriau hyn ac eisoes yn gweithio i greu darpariaeth sy'n atyniadol i blant a phobl ifanc. **Er hynny, byddai'n fuddiol comisiynu ymchwil pellach i ddeall mewn mwy o fanylder pa fath o ddarpariaeth fyddai'n denu pobl ifanc yn benodol**. Fel rhan o hyn gellid ystyried tystiolaeth ryngwladol ac a oes dulliau mwy strategol ac effeithiol o greu a chomisiynu darpariaeth fyddai'n denu mwy o siaradwyr Cymraeg ifanc.
- Mae'r canlyniadau yn dangos yn glir yr angen i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr yn rhagweithiol. Os bydd rhwystrau i dderbyn y gwasanaethau hynny, neu fod siaradwyr yn teimlo yn ansicr o argaeledd y gwasanaethau hynny, yna mae'n llawer llai tebygol y bydd pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg. Gall hyn arwain at gylch dieflig sy'n arwain at fwy o ddiffyg defnydd gan sefydlu arfer fydd yn parhau trwy'u hoes. **Mae'r ffocws hwn ar annog y defnydd o wasanaethau yn un o flaenoriaethau cynllun strategol y Comisiynydd ar gyfer 2025 i 2030 ac mae angen parhau i weithio gyda gwahanol sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso defnyddio gwasanaethau Cymraeg**. Dylai'r Comisiynydd flaenoriaethu'r meysydd hynny sy'n fwyaf perthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys gwasanaethau hamdden a gwasanaethau ieuchyd a gofal.

1. Cyflwyniad

Mae cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau yn un o flaenoriaethau Comisiynydd y Gymraeg. Er ein bod yn gweithio i gynyddu cyfleoedd i bawb ddefnyddio'r Gymraeg mae ceisio edrych drwy lens plant a phobl ifanc yn bwysig er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n debygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol.

Mae ein [cynllun strategol ar gyfer 2025-30](#) yn datgan ein bwriad i gynllunio a gweithredu yn fwy strategol er mwyn blaenoriaethu meysydd gwaith sy'n debygol o ddylanwadu ar allu plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol. Pwrpas y gwaith ymchwil hwn yw datblygu gwell sail tystiolaeth er mwyn arwain y gwaith cynllunio strategol.

1.1. Amcanion

Roedd dau brif amcan yn sail i'r gwaith ymchwil:

- 1) Datblygu dealltwriaeth o ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau
- 2) Casglu barn plant a phobl ifanc am y cyfleoedd sy'n bodoli i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg

1.2. Methodoleg

Er mwyn cyflawni'r amcanion ymchwil roedd angen casglu barn a phrofiadau ystod eang o blant a phobl ifanc yng Nghymru. Gwnaed hyn mewn dau gam.

Y cam cyntaf oedd datblygu holiadur i'w rannu ag ystod eang o blant a phobl ifanc yng Nghymru er mwyn casglu eu barn a'u profiadau. Roedd yr holiadur yn ceisio barn a phrofiadau plant a phobl ifanc oedran 11-21, gan dargedu'n benodol ysgolion uwchradd (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, a chyfrwng Saesneg), colegau addysg bellach a phrifysgolion, a rhai grwpiau/sefydliadau cymunedol.

Paratowyd holiaduron ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer grwpiau oedran blynyddoedd ysgol 7-11 a blwyddyn 12 i 21 oed. Er bod mwyafrif helaeth y cwestiynau yn gyffredin ar gyfer yr holiaduron penderfynwyd darparu fersiynau gwahanol ar gyfer ymatebwr cyn ac ar ôl 16 er mwyn gallu targedu diddordebau ac arferion cymdeithasol y grwpiau oed yn fwy effeithiol drwy'r holiaduron. Roedd y cwestiynau yn gyfuniad o gwestiynau meintiol ac ansoddol.

Dosbarthwyd yr holiadur drwy e-bost ar 21 Chwefror 2024 a chafodd ei gau ar 22 Ebrill 2024.

Anfonwyd yr holiadur at 90 o ysgolion uwchradd ar draws Cymru, 11 grŵp/coleg addysg bellach, 7 sefydliad addysg uwch, a 50 grŵp/cymdeithas ieuenctid. Yn ogystal rhannwyd yr holiaduron ar ffurf cod QR ar rai o gyfrifon cymdeithasol Comisiynydd y Gymraeg gyda gwahoddiad i blant a phobl ifanc ymateb iddo.

Derbyniwyd 1,352 o ymatebion i'r holiadur ar gyfer grwpiau oedran blynyddoedd ysgol 7-11, a 260 ymateb i'r holiadur ar gyfer blwyddyn 12 i 21 oed. Cafwyd felly gyfanswm o 1,612 o ymatebion i'r holiaduron.

Fel ail gam cynhaliwyd 6 sesiwn grŵp ffocws gyda phobl ifanc rhwng 13 ac 18 oed ym mis Ebrill 2024. Cynhaliwyd y sesiynau gyda chyfranogwyr o ddau sefydliad addysg bellach, dwy ysgol uwchradd, a dau grŵp ieuenctid cymunedol. Bwriad y grwpiau ffocws oedd cyfoethogi'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r holiaduron a rhoi cyfle i'r bobl ifanc rannu gwybodaeth bellach am eu harferion a'u dymuniadau wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

1.3. Cyfyngiadau'r ymchwil

Mae adran 2 yr adroddiad yn ymhelaethu ar ddemograffeg y sampl. Er bod y sampl yn un sylweddol dylid bod ofalus wrth ddadansoddi a dehongli'r data.

Yn gyntaf mae'r sampl yn cynnwys ystod eang o blant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Saesneg ac efallai ddim yn siarad llawer o'r Gymraeg, a hefyd rai sydd wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ac yn debygol o fod yn rhugl. Mae canlyniadau ar lefel sampl cyfan yn tueddu i gynrychioli canolbwynt rhwng grŵp o blant a phobl ifanc sydd ddim yn siarad nac yn defnyddio'r Gymraeg rhyw lawer, a grŵp o blant a phobl ifanc sy'n rhugl ac yn gwneud defnydd mwy sylweddol o'r Gymraeg. Rydym felly yn ceisio cymharu canlyniadau siaradwyr Cymraeg rhugl, y rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd, a'r rhai sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn erbyn y sampl cyfan lle bo hynny'n addas.

Er bod lledaeniad daearyddol sylweddol i'r sampl, mae angen bod yn ofalus iawn rhag dod i gasgliadau pendant wrth gymharu ymatebion fesul awdurdod lleol. Mewn sawl achos mae'r sampl mewn awdurdod lleol penodol yn gymharol fychan, ac efallai nad yw'r canlyniadau yn gynrychioladol o'r sir. Er enghraifft, efallai bod y sampl cyfan yn dod o un ysgol cyfrwng iaith benodol, neu yn dod o ardal benodol o'r sir sydd â mwy neu lai o siaradwyr Cymraeg. Felly, er ein bod yn hyderus fod y sampl yn rhoi darlun defnyddiol i ni o arferion ieithyddol ar lefel cenedlaethol, ni fyddai'n addas dod i gasgliadau pendant ynghylch defnydd ar lefel mwy lleol.

Mewn modd tebyg, mae llawer mwy o blant a phobl ifanc 12, 13 ac 14 wedi ymateb i'r holiadur o gymharu ag unigolion hŷn. Mae hefyd angen bod yn ofalus wrth gymharu ymatebion ar sail oedran. Mae'n bosib bod rhai grwpiau oed â llawer mwy o siaradwyr Cymraeg rhugl, neu unigolion sy'n dod o ardaloedd penodol.

1.4. Comisiynu'r gwaith


Comisiynwyd cwmni Iaith Cyf i gynnal y gwaith ymchwil hwn. Iaith Cyf oedd yn gyfrifol am lunio'r holiaduron, am ddsbarthu a chasglu'r holiaduron, am gynnal y grwpiau ffocws, a chyflwyno adroddiad drafft o'r prif ganlyniadau i'r Comisiynydd. Mae'r Comisiynydd wedi gwneud gwaith dadansoddi pellach ar sail y data a gyflwynwyd gan gynnwys dadansoddi'r data ar feddalwedd PowerBI, ac arwain y gwaith o lunio'r adroddiad terfynol hwn.

2. Demograffeg y sampl

2.1. Gallu yn y Gymraeg

O'r 1,612 o unigolion a ymatebodd i'r holiadur, roedd dros 40% yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, a dros 20% ychwanegol yn nodi eu bod yn siarad cryn dipyn o Gymraeg. Roedd 4% o'r ymatebwyr yn ystyried nad oedden nhw yn siarad Cymraeg.

Ffigur 1: hunan-ddisgrifiad ymatebwyr o'u gallu i siarad Cymraeg




Dewisodd 851 o'r ymatebwyr lenwi'r fersiwn Gymraeg o'r holiadur, gyda 761 yn dewis ymateb yn Saesneg.

2.2. Oedran

Ymatebodd llawer mwy o unigolion i'r holiadur ar gyfer oedran 11-16 (blynyddoedd ysgol 7-11) o gymharu â'r holiadur ar gyfer unigolion 16-21 oed (ôl-statudol). Gwelwyd y nifer uchaf o ymatebion gan ddisgyblion 12, 13 a 14 oed.

Ffigur 2: oedran yr ymatebwyr




Mae'r sampl ar gyfer yr holiaduron 16-21 oed felly yn fwy cyfyngedig o ran lledaeniad daearyddol ac yn cynnwys llai o amrywiaeth o ran newidynnau fel gallu yn y Gymraeg.

2.3. Lleoliad

Cafwyd ymatebion gan unigolion o 18 awdurdod lleol yng Nghymru. Ni chafwyd unrhyw ymatebion o ardaloedd Blaenau Gwent, Mynwy, Sir Benfro na Thorfaen. Er hynny, ac eithrio de orllewin Cymru, ymddengys bod lledaeniad daearyddol gweddol gadarn yma, gyda nifer sylweddol o ymatebion o ardaloedd gwahanol o Gymru. Dylid cadw mewn cof fodd bynnag nad yw'r astudiaeth o reidrwydd yn adlewyrchiad teg o safbwyntiau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.


Ffigur 3: yr awdurdod lleol lle mae'r ymatebwyr yn byw



2.4. Rhywedd

Roedd 50% o'r ymatebwyr yn disgrifio eu rhywedd fel benyw, a 42% yn wryw. Roedd tua 6% yn nodi fod gwell ganddynt hunan ddisgrifio, bod gwell ganddynt beidio dweud, neu eu bod yn anneauaid.


Ffigur 4: rhywedd yr ymatebwyr



2.5. Lleoliad addysg neu waith

Gofynnwyd y cwestiwn hwn i'r ymatebwyr 16-21 oed oedd wedi gadael y sector addysg statudol yn unig. Tybiwyd fod pawb oedd wedi llenwi'r holiadur ar gyfer oedran ysgol 11 i 16 oed yn dal i dderbyn addysg, boed hynny yn yr ysgol neu yn cael eu haddysgu gartref. Gwelwyd fod mwyafrif helaeth yr ymatebwyr 16-21 oed naill ai mewn ysgol neu mewn coleg addysg bellach. Roedd nifer llai yn mynychu prifysgol ac ambell ymatebydd mewn swydd neu yn ddi-waith.

Ffigur 5: ymatebion pobl ifanc 16-21 oed ynghylch lleoliad addysg neu os ydynt mewn gwaith




3. Caffael iaith, addysg a gwaith

3.1. Pryd ac yn lle wnaeth yr ymatebwyr ddysgu'r Gymraeg


O blith yr holl ymatebwyr roedd 37% wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol gynradd, 33% mewn darpariaeth ysgol feithrin neu ofal plant, 21% gartref fel plentyn ifanc, a dim ond 5% yn yr ysgol uwchradd.

Ffigur 6: pryd ac yn lle wnaeth yr ymatebwyr gaffael y Gymraeg



Mae'r proffil uchod yn newid yn sylweddol wrth gymharu siaradwyr Cymraeg rhugl gyda'r sampl cyfan. Gwelir bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol o fod wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd neu mewn darpariaeth cyn ysgol, a chyfran sylweddol lai wedi dysgu'r Gymraeg fel plant hŷn o fewn y gyfundrefn addysg.

Ffigur 7: cymharu pryd ac yn lle wnaeth siaradwyr rhugl gaffael y Gymraeg (glas tywyll) o gymharu â'r sampl cyfan (glas golau)




Fel mae Ffigur 7 yn dangos, mae 86% o'r sampl sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl hefyd yn dweud eu bod wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd neu mewn ysgol feithrin neu darpariaeth gofal plant.

3.2. Cyfrwng iaith addysg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi cyfrwng iaith eu haddysg mewn cyfnodau gwahanol. Yn amlwg, dim ond i'r dysgwyr 16-21 oed oedd wedi gadael y gyfundrefn addysg statudol y gofynnwyd am iaith eu haddysg bellach ac addysg uwch.

Ffigur 8: cyfrwng iaith addysg yr ymatebwyr mewn gwahanol gyfnodau




Mae'n bwysig nodi nad yw'r categorïau cyfrwng iaith uchod o reidrwydd yn cyfateb i gategori iaith ysgol. Dewiswyd peidio â gofyn am gategori ieithyddol y ddarpariaeth ei hun, a hynny oherwydd nad oes cysondeb rhwng categorïau a diffiniadau rhwng cyfnodau addysg gwahanol (er enghraifft, rhwng ysgolion a darpariaeth mewn colegau addysg bellach a phrifysgolion), a hefyd gan nad yw categorï'r ysgol o reidrwydd yn adlewyrchu profiad ieithyddol dysgwyr unigol (yn enwedig mewn ysgolion dwyieithog).

Roedd tua 36% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi derbyn addysg feithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn Gymraeg yn bennaf. Roedd 48% o'r ymatebwyr yn nodi bod eu haddysg gynradd yn Gymraeg yn unig neu yn Gymraeg yn bennaf. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer addysg uwchradd oedd 41%. Ar gyfer addysg bellach y ffigwr oedd 25%, ac ar gyfer y rhai oedd mewn addysg uwch, tua 10% oedd yn nodi eu bod yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn bennaf.

Fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl mae perthynas amlwg rhwng cyfrwng iaith addysg a lefelau rhuglder yr ymatebwyr. Er enghraifft, roedd dros 85% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn nodi bod eu haddysg gynradd wedi bod drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn bennaf. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer y rhai oedd yn nodi eu bod yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig oedd 2%.

Ffigur 9: Cyfrwng iaith addysg siaradwyr Cymraeg rhugl mewn gwahanol gyfnodau



3.3. Cyflogaeth a defnyddio'r iaith


Gofynnwyd i'r unigolion oedd dros oedran addysg statudol a oeddent yn gweithio ai peidio. Roedd tua hanner y rhai a ymatebodd yn gweithio, gyda'r mwyafrif helaeth o'r rhain mewn gwaith rhan amser.

Ffigur 10: faint o'r ymatebwyr 16-21 oed sydd mewn gwaith



Gofynnwyd i'r unigolion oedd mewn gwaith i ba raddau roeddent yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio. I'r rhai oedd mewn gwaith, roeddent yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad gyda chwsmeriaid, gyda dros 64% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio rhywfaint o'r Gymraeg.

Ffigur 11: y graddau y mae'r ymatebwyr sydd mewn gwaith yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio.
(*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt)




4. Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

4.1. Defnyddio'r Gymraeg gyda theulu a ffrindiau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa iaith maent yn ei defnyddio'n bennaf wrth siarad gydag aelodau o'r teulu, eu ffrindiau ac oedolion cyfarwydd. Er mwyn hwyluso'r dadansoddiad penderfynwyd cyfuno'r categorïau 'Cymraeg bob amser' a 'Chymraeg yn bennaf', a hefyd y categorïau 'Saesneg bob amser' a 'Saesneg yn bennaf'.


Ffigur 12: pa iaith mae'r ymatebwyr yn ei siarad yn bennaf gyda'r canlynol? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r niferoedd bychain o ymatebion oedd yn nodi nad oedd rhai categorïau yn berthnasol iddynt)



O edrych ar yr holl ymatebion gwelir mai gydag athrawon neu ddarlithwyr y mae'r ymatebwyr yn fwyaf tebygol o siarad Cymraeg. Mae dros 40% o'r ymatebwyr yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf gydag athrawon neu ddarlithwyr. Nid yw'n syndod fod y ganran hon yn debyg iawn i'r ganran oedd yn nodi eu bod yn derbyn addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf (gweler Ffigur 8). Y tu allan i'r ysgol gwelir bod yr ymatebwyr fwyaf tebygol o siarad Cymraeg gyda'u teulu, gyda thaid/tad-cu a nain/mam-gu ar dop y rhestr.

Mae'r patrwm defnydd iaith uchod yn newid yn sylweddol wrth edrych ar yr ymatebion yn ôl nodweddion eraill. Er enghraifft, gwelir bod y ganran sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg gyda theulu a ffrindiau yn cynyddu'n sylweddol wrth edrych ar y siaradwyr Cymraeg oedd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg a ddysgodd yr iaith ar yr aelwyd fel plant ifanc yn defnyddio'r Saesneg bob amser neu'n bennaf gydag aelodau o'u teulu, gan gynnwys eu rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd.

Ffigur 13: pa iaith mae'r ymatebwyr oedd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd fel plant ifanc yn ei siarad yn bennaf gyda'r canlynol? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r niferoedd bychain o ymatebion oedd yn nodi nad oedd rhai categorïau yn berthnasol iddynt)



Mae nodweddion fel rhuglder, cyfrwng iaith addysg, dewis iaith ymateb i'r holiadur, a hefyd i raddau llai lleoliad yr ymatebwyr, yn ei gwneud hi'n fwy tebygol eu bod yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u teulu a'u ffrindiau. Er enghraifft, wrth edrych ar un categori yn benodol, sef yr iaith a ddefnyddir gyda brodyr a chwiorydd, mae'r ganran sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu yn bennaf yn 12% o blith yr holl ymatebwyr, yn 27% ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, yn 50% ar gyfer y rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd, ac yn 33% ymhlith ymatebwyr o Ynys Môn.


Mae'n syndod bod tua 30% o'r rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd yn nodi eu bod yn siarad Saesneg bob amser neu'n bennaf gyda'u brodyr a'u chwiorydd, a hefyd bod canran debyg yn nodi eu bod yn siarad Saesneg bob amser neu'n bennaf gyda'u rhieni. Mae'n ddiddorol edrych yn agosach ar Ynys Môn fel enghraifft o ardal sydd â dwysedd uchel o siaradwyr a lle cafwyd nifer sylweddol o ymatebion i'r holiadur. Mae'n synod mai dim ond 33% o'r ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg bob amser neu'n bennaf gyda'u brodyr a'u chwiorydd, a bod y ganran yn gymharol debyg ar gyfer eu defnydd gyda rhieni yn ogystal. Er bod y ganran hon yn cynyddu i 61% ymysg y rhai a ddysgodd yr iaith ar yr aelwyd, mae dros 25% o'r unigolion hyn yn dal i ddatgan eu bod yn defnyddio'r Saesneg bob amser neu'n bennaf gyda'u brodyr a'u chwiorydd. Mae'r sefyllfa ychydig yn fwy cadarnhaol yng Ngwynedd er enghraifft, ond mae tua 17% o'r rhai a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Saesneg bob amser neu'n bennaf gyda'u brodyr a'u chwiorydd.

4.2. Defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, yn benodol wrth ddarllen, ysgrifennu, gwrando ar gerddoriaeth a phodlediadau, ac wrth wyllo'r teledu. O blith yr holl ymatebwyr, gwelwyd bod tua 32% yn nodi eu bod yn ysgrifennu yn Gymraeg, 28% yn darllen yn Gymraeg a 27% yn gwrando ar gerddoriaeth a gwyllo'r teledu yn Gymraeg. Roedd cyfran lai o'r ymatebwyr yn nodi eu bod


yn gwyllo fideos neu gynnwys ar-lein yn Gymraeg (15%), lawrlwytho apiau neu gemau yn Gymraeg (10%), neu yn gwrando ar bodlediadau yn Gymraeg (8%).

Ffigur 14: cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi eu bod yn gwneud y gweithgareddau canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg




Unwaith eto, gwelir bod siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sydd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd fel plant ifanc yn llawer mwy tebygol o wrando ar gerddoriaeth, darllen, ac ysgrifennu yn Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Er enghraifft, er mai 27% o'r sampl cyfan oedd yn gwyllo'r teledu yn Gymraeg, roedd y ffigwr yn codi i 42% ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl, ac i 61% i'r rhai oedd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd.

Ffigur 15: cyfran y siaradwyr Cymraeg rhugl (lliwiau trwm) sy'n nodi eu bod yn gwneud y gweithgareddau canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â'r sampl cyfan (lliwiau cysgodol)



Ffigur 16: cyfran yr ymatebwyr oedd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd (lليwiau trwm) sy'n nodi eu bod yn gwneud y gweithgareddau canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â'r sampl cyfan (lليwiau cysgodol)




O blith cyfranogwyr y grwpiau ffocws ychydig iawn oedd yn nodi eu bod yn gwyllo teledu'n gyson, ac yn aml roedd yn ddigwyddiad teuluol neu ar hap. Roedd mwy o gyfeirio at wyllo ar-lein drwy blatfformau fel Youtube, Netflix a Disney. O ran y mathau o raglenni a deunydd Cymraeg yr oeddent yn eu gwyllo, soniwyd yn benodol am HANSI, Rownd a Rownd a rhaglenni chwaraeon rhyngwladol.

4.3. Mynychu clybiau, grwpiau neu gymdeithasau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr os oeddent yn aelod o unrhyw fath o glwb, grŵp, cymdeithas, neu yn mynychu gweithgareddau penodol y tu allan i'r ysgol. Gwelir bod yr ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o fod yn aelod o glybiau chwaraeon neu'n mynychu gweithgareddau chwaraeon na'r un o'r opsiynau eraill.


Mae'n ddiddorol nodi bod ymwneud yr ymatebwyr â rhai mathau o grwpiau a gweithgareddau yn lleihau wrth iddynt fynd yn hŷn. Er enghraifft, mae'r ganran sy'n gwneud rhyw fath o weithgaredd chwaraeon ar ei uchaf ymysg y rhai 13 oed (60%), ac yn sylweddol is ar gyfer y grwpiau oedran sydd wedi gadael y sector addysg statudol (cyfartaledd o 38%).

Ffigur 17: Aelodaeth o glybiau, grwpiau, cymdeithasau neu yn mynychu gweithgareddau penodol y tu allan i'r ysgol




Gofynnwyd i'r ymatebwyr ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg wrth fynychu wahanol glybiau a gweithgareddau. Mae Ffigur 18 yn dangos y graddau mae'r ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyfforddwyr neu arweinwyr, tra bod Ffigur 19 yn dangos y graddau mae ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau wrth fynychu gwahanol glybiau a gweithgareddau.

Ffigur 18: o'r rhai sy'n mynychu'r clybiau/gweithgareddau isod, i ba raddau maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg gyda hyfforddwyr/arweinwyr? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi nodi nad oeddent yn mynychu'r clybiau/gweithgareddau, ac felly bod y cwestiwn yn amherthnasol iddynt)




Ffigur 19: o'r rhai sy'n mynychu'r clybiau/gweithgareddau isod, i ba raddau mae nhw'n defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi nodi nad oeddent yn mynychu'r clybiau/gweithgareddau, ac felly bod y cwestiwn yn amherthnasol iddynt)



Mae patrwm defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol weithgareddau yn gymharol gyson wrth gymharu'r defnydd o'r Gymraeg gyda hyfforddwyr/arweinwyr a gyda ffrindiau. Yn y ddau achos, mae'r ymatebwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau chwaraeon, gyda 37% o ymatebwyr yn nodi y byddant yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyfforddwyr ac arweinwyr, a 34% gyda ffrindiau. Mae'n ddiddorol eto cymharu'r ffigyrau uchod gyda siaradwyr Cymraeg rhugl (lle'r oedd 53% yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau wrth wneud gweithgareddau chwaraeon) a'r unigolion hynny oedd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd (lle'r oedd y ffigwr cyfatebol yn 71%).

Ffigur 20: cymhariaeth o'r graddau mae ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau mewn gweithgareddau chwaraeon. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi nodi nad oeddent yn mynychu'r clybiau/gweithgareddau, ac felly bod y cwestiwn yn amherthnasol iddynt)




Roedd rhai o gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn aelodau o fudiadau Cymraeg Clwb Ffermwyr Ifanc a'r Urdd ac yn nodi bod hynny'n rhoi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Roedd llawer ohonynt hefyd yn mynychu clybiau chwaraeon yn eu hardaloedd. Mewn rhai ardaloedd nodwyd bod y clybiau hyn yn cael eu cynnal yn Gymraeg neu fod ymdrech ymwybodol ar ran yr arweinwyr i gynnal y gweithgareddau yn Gymraeg.

“Dwi’n chwarae hoci, mae’r clwb yn Gymraeg, os mae rhai pobl Saesneg yn ymuno dan ni’n Siarad Saesneg efo nhw ond Cymraeg fyswn i yn siarad efo rhan fwya’ o bobl ac efo’r coaches. Mae’r trainers yn siarad Cymraeg o hyd.”

“Dw i’n mynd i nofio, mynd i’r clwb nofio lleol, mae yna rai yn y clwb yn siarad Cymraeg a mae rhai yn siarad Saesneg. Yn y clwb nofio mae’r hyfforddwr yn siarad Cymraeg.”



Gofynnwyd i’r ymatebwyr oedd wedi nodi nad oeddent yn defnyddio’r Gymraeg yn y clwb neu gymdeithas beth oedd yn eu hatal rhag gwneud hynny. Gwelir mai’r rhesymau gafodd eu nodi fwyaf aml oedd bod ffrindiau neu aelodau eraill ddim yn siarad Cymraeg. Roedd nifer o’r ymatebwyr, yn enwedig y rhai oedd wedi ateb yr holiadur yn Saesneg, yn nodi eu bod yn teimlo fwy cyfforddus yn siarad Saesneg, a bod siarad Cymraeg ddim yn rhywbeth arferol iddyn nhw a’u ffrindiau.



“I prefer speaking in a language common to most of the people I interact with, and that language is English”

“I don’t want to because school has made Welsh something I feel I’m forced to do because they’re so angry about it so it makes me and my friends uncomfortable”

“I prefer to speak English in case I get embarrassed speaking Welsh”

Tabl 1: rhesymau’r ymatebwyr dros beidio â defnyddio’r Gymraeg mewn clwb/cymdeithas

Rheswm	Nifer
Aelodau eraill ddim yn siarad Cymraeg	500
Arweinwyr/hyfforddwyr ddim yn siarad Cymraeg	370
Clwb/cymdeithas yn cael ei gynnal mewn iaith arall	278
Ffrindiau ddim yn siarad Cymraeg	552
Rheswm arall	513


Tabl 2: Beth fyddai'n helpu er mwyn galluogi'r ymatebwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu clybiau/gweithgareddau?

Rheswm	Nifer
Arweinwyr/hyfforddwyr yn siarad Cymraeg	399
Clwb/cymdeithas yn cael ei gynnal yn Gymraeg	267
Gwybod ymlaen llaw ei bod yn bosib siarad Cymraeg	428
Rheswm arall	487

4.4. Mynychu digwyddiadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr os oeddent wedi mynychu gwahanol ddigwyddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf, ac i ba raddau roedd y digwyddiadau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio.

Ffigur 21: pa ddigwyddiadau mae'r ymatebwyr wedi'u mynychu yn y 12 mis diwethaf, ac ym mha iaith oedd y digwyddiad?




5. Defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein

5.1. Cyfathrebu gyda theulu a ffrindiau drwy wahanol gyfryngau

Gofynnwyd i ymatebwyr pa ieithoedd roedden nhw'n eu defnyddio fel arfer wrth gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. O blith yr holl ymatebwyr, roedd tua 28% yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu yn weddol gyfartal â'r Saesneg wrth anfon neges destun. Roedd y ganran yn llai o safbwynt anfon negeseuon uniongyrchol at unigolyn (22%), ar alwad fideo gydag unigolyn (22%), i anfon negeseuon uniongyrchol at grŵp (18%), ar alwad fideo gyda grŵp (18%), ac wrth gynnal sgwrs llais (17%).

Ffigur 22: defnydd iaith wrth gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg drwy wahanol gyfryngau. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio y rhai oedd wedi ymateb nad oedd y weithgaredd yn berthnasol iddynt)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall




Ar gyfer mwyafrif y categorïau mae tua 80% o'r sampl yn nodi mai prin yw eu defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau drwy'r gwahanol gyfryngau uchod.

Mae'r grwpiau oedran hŷn a ymatebodd i'r holiadur ar y cyfan yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau ar draws yr holl gyfryngau uchod. Er enghraifft, 26% o'r ymatebwyr o oedran addysg statudol oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn unig, yn bennaf, neu yn gyfartal â'r Saesneg wrth anfon neges destun, o'i gymharu a 38% o'r ymatebwyr oedran ôl-statudol. Dylid nodi fodd bynnag, fod cyfran uwch o'r ymatebwyr oedran ôl-statudol wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd. Fel y gwelir isod, mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau ar draws yr holl gyfryngau gwahanol:

Ffigur 23: defnydd iaith siaradwyr Cymraeg rhugl wrth gyfathrebu gyda theulu a ffrindiau sy'n siarad Cymraeg drwy wahanol gyfryngau. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y weithgaredd yn berthnasol iddynt)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall



Mae'r siaradwyr Cymraeg a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd yn fwy tebygol fyth o ddefnyddio'r Gymraeg gyda theulu a ffrindiau ar wahanol gyfryngau. Er enghraifft, wrth anfon neges destun, mae 76% o'r unigolion ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd yn nodi y byddant yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu yn gyfartal â'r Saesneg.

5.2. Defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr fanylu ar eu harferion ieithyddol wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Unwaith eto, er mwyn symleiddio'r dadansoddiad ar gyfer y cwestiwn hwn mae'r categorïau 'Cymraeg bob amser' a 'Cymraeg yn bennaf' wedi cael eu cyfuno. Yn yr un modd mae'r categorïau 'Saesneg bob amser' a 'Saesneg yn bennaf' wedi'u cyfuno.


Fel y gwelir isod, canran gymharol isel o'r ymatebwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r canrannau sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg yn is na'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb (gweler Ffigur 12) neu wrth anfon neges testun (gweler Ffigur 22). Mae'r ganran yn amrywio o un cyfrwng i'r llall, gyda'r gyfran uchaf (6%) yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth greu cynnwys ysgrifenedig eu hunain, a'r ganran leiaf (2%) yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth chwilio am gynnwys ar-lein neu wrth wrando ar gynnwys ar-lein. Mae'n ddiddorol nodi fod y canrannau uchod yn gyffredinol is na'r canrannau sy'n defnyddio'r Gymraeg gyda theulu a ffrindiau (gweler Ffigur 22 uchod).

Dylid nodi nad yw'r canrannau uchod yn cynnwys y rhai oedd wedi datgan nad oedd y gweithgareddau yn berthnasol iddynt. Er enghraifft, roedd rhai o'r gweithgareddau yn amherthnasol i nifer sylweddol o'r ymatebwyr, er enghraifft 'cael sgwrs llais gyda rhywun nad ydyn nhw'n ei adnabod', lle'r oedd 662

o'r ymatebwyr yn nodi fod hyn yn amherthnasol iddynt. I weithgareddau eraill, er enghraifft, gwyllo cynnwys ar-lein, dim ond 61 oedd yn nodi fod hyn yn amherthnasol iddynt.

Ffigur 24: defnydd iaith ymatebwyr wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y gweithgaredd yn berthnasol iddynt)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall




Er bod y canrannau sy'n defnyddio'r Gymraeg yn gymharol isel, mae'r canrannau hyn yn dal yn debygol o gynrychioli niferoedd sylweddol ar lefel Cymru gyfan. Hyd yn oed mewn perthynas â'r gweithgareddau lle'r oedd y ganran isaf o ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg, o fod yn cyfuno'r categori 'Cymraeg bob amser neu'n bennaf' a 'Cymraeg a Saesneg yn gyfartal' mae nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Er enghraifft, o edrych ar y categori 'gwyllo cynnwys ar-lein' mae 151 allan o sampl o dros 1600 yn nodi eu bod yn gwneud defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Ar lefel Cymru gyfan, mae'r niferoedd o blant a phobl ifanc sydd yn defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol ac ar-lein am fod yn sylweddol, hyd yn oes os yw'r canrannau yn gymharol isel.

Mae patrymau defnyddio'r Gymraeg yn amrywio'n sylweddol wrth ddechongli'r data yn ôl nodweddion eraill penodol. Er enghraifft, mae'r defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein yn cynyddu'n sylweddol wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig. Yn wir, gwelir bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig.

Ffigur 25: defnydd iaith siaradwyr Cymraeg rhugl wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, categorïau wedi'u cyfuno. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y weithgaredd yn berthnasol iddynt)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall




Mae'r cynnydd cyffredinol hwn i'w weld fwyaf amlwg wrth edrych ar yr unigolion hynny sydd wedi caffael y Gymraeg ar yr aelwyd fel plant ifanc (gweler Ffigur 26 isod). Wrth edrych ar y categori 'creu cynnwys ysgrifenedig fy hun' fel enghraifft, gwelir mai'r ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg yw 17% ar gyfer y sampl yn ei gyfanrwydd, mae'r ganran yn cynyddu i 32% ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl, ac yn cynyddu i 48% ar gyfer y rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr alwyd.

Mae'r canrannau hyn hefyd yn amrywio ar sail oedran a lleoliad, ond nid oes patrwm amlwg i'w weld yma. Mae'n debygol bod yr amrywiadau hyn yn bennaf yn adlewyrchu nodweddion eraill er enghraifft rhuglder yn y Gymraeg, cyfrwng iaith addysg, a maint y sampl yn yr awdurdod lleol hynny neu ar gyfer yr oedran hynny. Y casgliad cyffredinol yw fod cyfran o siaradwyr Cymraeg ar hyd a lled Cymru ac o bob oedran yn debygol o fod yn defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein. Mae'r defnydd hwn yn cynyddu'n sylweddol ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n dod o aelwydydd sy'n siarad Cymraeg. Mae'n debygol felly fod y defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein am fod yn uwch yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg rhugl ac aelwydydd Cymraeg eu hiaith.

Ffigur 26: defnydd iaith unigolion sydd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd wrth gyfathrebu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, categorïau wedi'u cyfuno (**Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y weithgaredd yn berthnasol iddynt*)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall




Roedd darlun ieithyddol cymysg o ran y defnydd o'r Gymraeg ar-lein ymysg cyfranogwyr y grwpiau ffocws. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn mynnu eu bod yn 'gwneud bob dim ar-lein yn Gymraeg', a ddim ond yn defnyddio'r Saesneg os nad oedd yn bosib defnyddio'r Gymraeg. Un thema amlwg o'r grwpiau ffocws oedd bod nifer yn adrodd eu bod yn ysgrifennu negeseuon dwyieithog wrth gychwyn sgwrs neu rannu cynnwys. Yn ôl y cyfranogwyr, roedd hyn 'yn rhoi'r dewis iddyn nhw...ac yn dangos fy mod yn siarad Cymraeg'. Roedd nifer hefyd yn adrodd eu bod yn defnyddio'r Saesneg yn bennaf gan fod mwy o'r gynulleidfa yn Saesneg, ac felly ei fod yn haws cyrraedd mwy o bobl drwy ddefnyddio'r Saesneg. Un thema amlwg yn fan hyn oedd diffyg hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny fel arfer yn seiliedig ar y rhagdybiaeth na fyddai pobl eraill yn eu deall.

5.3. Yr iaith a ddefnyddir ar wahanol gyfryngau cymdeithasol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr os oedden nhw'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol isod, ac os felly pa iaith roeddent yn ei defnyddio wrth greu/rhannu cynnwys arnynt:

Ffigur 27: defnydd iaith ymatebwyr wrth ddefnyddio gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol.
(*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oeddent yn defnyddio rhai platfformau penodol)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall




Dylid nodi nad yw'r canrannau uchod yn cynnwys y rhai oedd wedi datgan nad oeddent yn defnyddio rhai o'r platfformau cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, roedd 74% o'r ymatebwyr wedi nodi nad oeddent yn defnyddio LinkedIn o gwbl, ac felly mae'r canrannau uchod yn seiliedig ar ddefnydd iaith y 26% o'r sampl oedd yn defnyddio LinkedIn. O ran defnyddio'r platfformau eraill, gwelwyd mai WhatsApp oedd y platfform mwyaf poblogaidd, gyda 94% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn ei ddefnyddio. Yn dilyn hynny Snapchat (81%), Tiktok (76%), a Instagram (70%) oedd y platfformau fwyaf poblogaidd. Yn ddiddorol dim ond 38% o'r ymatebwyr oedd yn defnyddio X/trydar, a dim ond 47% yn defnyddio Facebook.

O safbwynt defnyddio'r Gymraeg ar y platfformau hyn, WhatsApp oedd ar frig y rhestr, gyda 17% o'r rhai oedd yn defnyddio'r platfform yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu yn gyfartal â'r Saesneg. Yn dilyn hynny roedd Instant Messenger (15%) a Snapchat (13%).

Trafodwyd defnyddio cyfryngau cymdeithasol gyda chyfranogwyr grwpiau ffocws. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn gwneud rhywfaint o ddefnydd o'r cyfryngau Cymdeithasol. Cyfeiriwyd at ddefnyddio WhatsApp, Instagram a Snapchat i siarad a chyfathrebu gyda ffrindiau. Roedd y mwyafrif yn dweud eu bod yn defnyddio'r Gymraeg weithiau, ond eu bod hefyd yn defnyddio'r Saesneg, a bod hyn yn dibynnu 'ar aelodaeth y sgwrs neu'r grŵp sgwrsio'. Er enghraifft, 'os oes rhywun Saesneg, neu bod gwell 'da nhw Saesneg, mae'r grŵp i gyd yn defnyddio Saesneg wedyn.' Roedd sylwadau fel hyn ynghylch diffyg hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle nad oedd pawb yn gallu'r Gymraeg yn thema amlwg yn rhai o'r atebion ansoddol yn yr holiadur, a hefyd yn y grwpiau ffocws, a ceir rhagor o drafodaeth am hyn isod.


Ffigur 28: defnydd iaith siaradwyr Cymraeg rhugl wrth ddefnyddio gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol, categorïau wedi'u cyfuno. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oeddent yn defnyddio rhai platfformau penodol)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall



Ffigur 29: defnydd iaith unigolion sydd wedi dysgu'r Gymraeg ar yr aelwyd wrth ddefnyddio gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol, categorïau wedi'u cyfuno. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio y rhai oedd wedi ymateb nad oedd y weithgaredd yn berthnasol iddynt)


● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall



Fel mae ffigurau 28 a 29 yn ei ddangos, mae'r canrannau sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ar wahanol blatfformau yn cynyddu yn sylweddol ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Er enghraifft, mae'r ganran sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n gyfartal â'r Saesneg ar WhatsApp yn 17% ar gyfer y sampl cyfan, yn 34% ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn 60% ar gyfer y rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi beth oedd y prif resymau os nad oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ganddynt.

Ffigur 30: rhesymau'r ymatebwyr dros beidio â defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol




Rhai rhesymau eraill a roddwyd gan ymatebwyr oedd ei bod yn haws defnyddio'r platfformau amrywiol drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd cywiro awtomatig a hefyd bod y bobl roeddent yn cyfathrebu â nhw yn debygol o fod yn siarad Saesneg ac nid Cymraeg. Er bod nifer o'r ymatebwyr i'r holiaduron a chyfranogwyr y grwpiau ffocws yn nodi bod heriau o ran defnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd eraill yn gweld potensial i dechnoleg hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft fe nododd un o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws bod modd postio deunydd yn Gymraeg ar amryw o'r cyfryngau cymdeithasol a bod modd i bobl eraill ddefnyddio'r botwm 'cyfieithu' er mwyn darllen drwy gyfrwng iaith arall. Er hyn, roedd y math yma o agweddau yn eithriadau, ac ymddengys mai'r arfer mwy cyffredin oedd troi i'r Saesneg os nad oedd pawb yn gallu'r Gymraeg, neu bod y gynulleidfa yn un mwy eang.

Mae'n ddiddorol nodi nad oedd llawer o dystiolaeth bod unigolion yn gweld potensial technoleg ac deallusrwydd artiffisial yn eu galluogi i gyfathrebu yn Gymraeg, ac i gynulleidfaoedd sydd ddim yn gallu'r iaith i ddilyn a deall. Mewn modd tebyg ac yng nghyd-destun siarad a ffrindiau a chyfoedion, ymddengys bod tuedd i droi i'r Saesneg pan mai dyna oedd iaith gyntaf unigolion eraill, a hynny er gwaethaf y tebygolrwydd bod yr unigolion hyn yn deall Cymraeg. Ymddengys bod diffyg hyder gan nifer

o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle nad yw pawb arall yn siarad Cymraeg. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod yr unigolion hyn yn debygol o allu deall Cymraeg. Heb os, mae'r materion uchod yn teilyngu ymchwil pellach, ac o bosib yn faes y gellid ei flaenoriaethu o ran cynyddu defnydd ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r holiadur a chyfranogwyr y grwpiau ffocws beth fyddai'n ei gwneud yn fwy tebygol eu bod yn defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein. Dyma rai enghreifftiau o'r atebion a roddwyd:



“Sicrhau bod yr adnoddau cyfieithu ar y platfformau hyn yn ddibynadwy... Buaswn yn debygol o wneud llawer mwy o bostiadau yn Gymraeg yn unig pe byddwn yn gwybod bod y platfform yn creu cyfieithiad dibynadwy/dealladwy i'r di-Gymraeg”

“Defnyddio'r Gymraeg ar y platfformau ar gyfer trafod testunau fwy eang – hynny ydi, mae'r cynnwys yn tueddu i ddod ar Tiktok yn trafod yr iaith ei hun yn hytrach na phethau a welir yn yr iaith Saesneg – hiwmor, gwleidyddiaeth, newyddion y byd, ac yn y blaen”

“Ar y cyfan dwi'n defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau trwy gymdeithasu...ond dyw'r cynnwys mwy cyffredinol fel fideos, hysbesebion nad wyf yn ei ddilyn o ddewis ddim sy'n ymddangos ar fy feed i gyd yn Saesneg. Mae rhaid chwilio am y Gymraeg...”

“Nid yw cyfryngau cymdeithasol neu ar lein yn pwysig, nid dyma dyle fod y bwriad. Mwy o ymdrech at gweithgareddau e.e. gigs a pherfformiadau sydd angen a nid i pobl hen...”


6. Defnyddio gwasanaethau yn Gymraeg

6.1. Yr iaith a ddefnyddir wrth dderbyn gwasanaethau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa ieithoedd a ddefnyddiwyd ganddynt gan amlaf wrth dderbyn gwasanaethau wyneb yn wyneb, ar-lein, neu ar sgrin. Gofynnwyd i'r ymatebwyr blwyddyn 12 i 21 oed am yr iaith yr oeddent yn ei defnyddio wrth dderbyn cefnogaeth addysgiadol (er enghraifft Gyrfa Cymru, benthyciadau myfyrwyr, UCAS); cefnogaeth gymunedol/cyffredinol (er enghraifft elusennau sy'n cefnogi a darparu cyngor i bobl ifanc); gwasanaethau iechyd (er enghraifft meddyg, ysbyty, gwasanaeth cymdeithasol, deintydd, optegydd); gwasanaethau'r cyngor lleol (er enghraifft canolfan hamdden, llyfrgell, gwasanaethau ieuenctid, cludiant cyhoeddus), ac ar y stryd fawr (er enghraifft siopau, archfarchnadoedd, theatr, sinema, banciau). I'r sampl blynedd oedd ysgol 7-11 gofynnwyd am yr iaith yr oeddent yn ei defnyddio wrth dderbyn gwasanaethau'r cyngor lleol ac ar y stryd fawr yn unig.

Ffigur 31: pa ieithoedd mae'r ymatebwyr yn ei defnyddio wrth dderbyn gwahanol wasanaethau.
(*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt)

● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall




Gwelir mai wrth dderbyn cefnogaeth addysgiadol mae plant a phobl ifanc fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, roedd 23% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth dderbyn cefnogaeth addysgiadol, gyda 17% yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn weddol gyfartal. O gyfuno'r categorïau hyn gwelir bod 39% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn weddol rheolaidd wrth dderbyn cefnogaeth addysgiadol. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer gwasanaethau iechyd oedd 33%; ar gyfer cefnogaeth gymunedol/cyffredinol y ffigwr oedd 30%; ac ar gyfer gwasanaethau'r cyngor y ffigwr oedd 26%. Gwelir bod plant a phobl ifanc yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y stryd fawr, gyda 17% yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser, yn bennaf, neu'n weddol gyfartal â'r Saesneg.

O ddehongli'r data yn ôl nodweddion eraill gwelir bod defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn amrywio yn sylweddol wrth dderbyn gwasanaethau. Er enghraifft, mae Ffigur 32 isod yn cymharu ymatebion ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau'r cyngor yn ôl gwahanol nodweddion eraill. Gwelir eto fod y defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu'n sylweddol wrth gymharu'r

sampl cyfan â siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Gwelir hefyd fod y canlyniadau yn amrywio yn ôl ardal ddaearyddol, gyda 21% o'r ymatebwyr o Gaerdydd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd wrth dderbyn gwasanaethau'r cyngor, o gymharu a 50% o'r ymatebwyr o Ynys Môn.

Ffigur 32: pa ieithoedd mae'r ymatebwyr yn eu defnyddio wrth dderbyn gwasanaethau'r cyngor, cymhariaeth yn ôl gwahanol nodweddion. (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt)


● Cymraeg bob amser neu'n bennaf ● Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ● Saesneg bob amser neu'n bennaf ● Iaith arall



Wrth gwrs, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth gymharu ardaloedd gwahanol a gall bod nifer o resymau cymhleth dros y gwahaniaethau sy'n ymddangos. Er hynny, mae'n ddiddorol cymharu'r canlyniadau o'r ardaloedd lle derbyniwyd y mwyaf o ymatebion i'r holiadur, 380 o Gaerdydd a 270 o Ynys Môn. O gymharu ymatebion y siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig (164 o Gaerdydd a 152 yn Ynys Môn) gwelir bod y ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd wrth dderbyn gwasanaethau'r Cyngor yn 41% yng Nghaerdydd a 66% yn Ynys Môn. O ran defnyddio'r Gymraeg ar y stryd fawr ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl yn y ddwy ardal hyn, gwelir bod y ganran sy'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn 55% yn Ynys Môn ac yn 21% yng Nghaerdydd. Mae'r canlyniadau uchod yn awgrymu bod defnydd pobl o'r Gymraeg yn cael ei ddylanwadu gan amryw o ffactorau cymhleth.

Ffigur 33: a gafodd yr ymatebwyr wasanaeth Cymraeg y tro diwethaf iddynt ddefnyddio gwahanol wasanaethau? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt)

● Do, cefais ei gynnig a'i ddefnyddio ● Do, ar ôl gofyn ● Naddo ond cefais ei gynnig ● Naddo, ni chefais ei gynnig



Mae'r graff uchod yn dangos pa ieithoedd ddefnyddiodd yr ymatebwyr y tro diwethaf iddynt dderbyn gwahanol wasanaethau. Mae'r canrannau sy'n nodi eu bod wedi derbyn cynnig o wasanaeth yn Gymraeg yn gymharol gyson â chanlyniadau Ffigur 31, ond gwelir bod canran uchel o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi cael cynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ond nad oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg serch hynny.

Darlun cymysg o ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg a gafwyd gan gyfranogwyr grwpiau ffocws. Mewn rhai ardaloedd roedd y cyfranogwyr wedi dweud nad oeddynt at ei gilydd yn defnyddio llawer o wasanaethau ieched na gwasanaethau'r cyngor. Mewn ardaloedd eraill roedd cryn drafod ar wasanaethau ieched trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, roedd un o'r grwpiau yn canmol y gwasanaethau ieched lleol ble roedd mwyafrif y staff yn siarad Cymraeg. Er hynny, mewn ardal arall esboniodd un cyfranogwr sut roedd diffyg gwasanaeth meddygol Cymraeg yn effeithio arni:

“Pan dwi'n gorfod siarad Saesneg yn y lle doctor dw i ddim yn gallu dweud yn iawn be sy'n bod arna i. Dw i'n gorfod practisio cyn mynd a meddwl be dw i isio'i ddweud.”




Roedd y rhai oedd wedi cael profiad o driniaeth mewn ysbytai cyffredinol yn datgan mai prin iawn oedd y gwasanaeth Cymraeg roeddent wedi ei gael. Prin iawn hefyd oedd y profiadau o gael gwasanaeth deintyddol a gwasanaeth gofal llygaid yn Gymraeg.

Wrth drafod profiadau defnyddio gwasanaethau'r stryd fawr dywedodd amryw o gyfranogwyr mai'r tueddiad yn eu hardaloedd hwy oedd i fusnesau bach teuluol gynnig gwasanaethau yn Gymraeg tra oedd archfarchnadoedd lleol yn cynnig gwasanaeth yn Saesneg. Cyfeiriodd rhai o'r cyfranogwyr hyn at anawsterau derbyn gwasanaeth Cymraeg wrth sefyll prawf gyrru. Roedd mwyafrif y rhai a oedd wedi sefyll eu prawf gyrru wedi gwneud hynny yn Saesneg er y byddai rhai wedi dymuno sefyll y prawf yn Gymraeg.

6.2. Dewis iaith plant a phobl ifanc wrth dderbyn gwasanaethau

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr a fuasent yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe byddai'r gwasanaethau hynny ar gael yn Gymraeg yn hawdd. Mae'n ddiddorol gweld bod canran yr ymatebwyr sy'n nodi y buasent yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe byddai'r gwasanaethau hynny ar gael yn hawdd yn uwch na'r canrannau oedd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn y gwasanaethau hyn. Er enghraifft, dim ond 17% o'r ymatebwyr oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu yn bennaf wrth dderbyn gwasanaethau ieched, ond roedd 28% o'r sampl yn nodi y buasent yn defnyddio'r Gymraeg pe byddai'r gwasanaeth hwn ar gael yn hawdd, gyda 25% ychwanegol yn nodi efallai y buasent yn defnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg. Yn yr un modd, dim ond 6% o'r ymatebwyr oedd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar y stryd fawr, ond roedd 18% yn nodi y buasent yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe byddai'r gwasanaeth ar gael yn hawdd, gyda 32% ychwanegol yn nodi efallai y buasent yn defnyddio'r Gymraeg.


Ffigur 34: y graddau y byddai ymatebwyr yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg pe byddai'r gwasanaethau canlynol ar gael yn Gymraeg



Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd beth fuasent yn ei wneud petaent yn cael cynnig gwasanaeth Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Cyflwynwyd tair sefyllfa i ymatebwyr blwyddyn 12 i 21 oed, sef mynd i apwyntiad meddygol, mynd i ddosbarth ffitrwydd a mynd i siop. Cyflwynwyd dwy sefyllfa i'r ymatebwyr blynyddoedd ysgol 7-11, sef mynd i apwyntiad meddygol a mynd i'r siop.


Mae Ffigur 35 isod yn dangos y buasai 39% o'r ymatebwyr yn derbyn y cynnig i siarad Cymraeg pe byddai cynnig rhagweithiol i gynnal apwyntiad meddygol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r 17% oedd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf wrth dderbyn gwasanaeth iechyd (gweler Ffigur 31). Roedd 35% o'r ymatebwyr yn nodi y buasent yn derbyn y cynnig i siarad Cymraeg wrth fynd i ddosbarth ffitrwydd, a 33% wrth fynd i siop a chael cynnig gwasanaeth ar lafar neu ar sgrin yn Gymraeg. Mae'r canrannau hyn eto yn sylweddol uwch na'r ganran sy'n nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu'n bennaf ar hyn o bryd. Mae'r canlyniadau yma yn awgrymu'n gryf bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg os ydynt yn cael cynnig gwasanaethau yn rhagweithiol ac heb unrhyw rwystrau.

Ffigur 35: sut buasai'r ymatebwyr yn ymateb i'r sefyllfaoedd isod? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt)




Fel mae ffigur 36 yn ei ddangos isod, mae'r tebygolrwydd y byddai'r ymatebwyr yn derbyn y cynnig i siarad Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd yn cynyddu'n sylweddol yn achos siaradwyr Cymraeg rhugl.

Ffigur 36: sut byddai siaradwyr Cymraeg rhugl yn ymateb i'r sefyllfaoedd isod? (*Mae'r canlyniadau yn eithrio'r rhai oedd wedi ymateb nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt)



Fel y mae Ffigur 37 isod yn ei ddangos fe ymatebodd 75% o'r sampl na fuasent yn gofyn am wasanaeth Cymraeg os nad yw'n amlwg bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. O ran y rhesymau oedd yn cael eu darparu gan y rhai oedd wedi nodi na fuasent yn gofyn am wasanaeth Cymraeg yr un mwyaf cyson oedd nad oeddent am greu trafferth a bod gwneud hynny yn creu sefyllfa anghyfforddus.

Ffigur 37: a fyddai ymatebwyr yn gofyn am wasanaeth Cymraeg?



6.3. Mathau o wasanaethau Cymraeg

Ffigur 38: pa fath o wasanaethau Cymraeg fyddai'r ymatebwyr yn dymuno eu derbyn




Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd mathau penodol o wasanaethau y buasent yn dymuno eu derbyn yn Gymraeg. Roedd yr holiaduron a rannwyd â disgyblion ysgol blwyddyn 7-11 yn canolbwyntio ar y mathau o wasanaethau y buasai'r ymatebwyr yn dymuno eu derbyn mewn perthynas â gwasanaethau'r cyngor ac ar y stryd fawr. Roedd yr holiaduron a rannwyd â'r bobl ifanc blwyddyn 12 i 21 oed yn casglu barn yr ymatebwyr am fathau gwahanol o wasanaethau mewn cyd-destun gwasanaeth iechyd, cefnogaeth addysgiadol, a chefnogaeth gymunedol/cyffredinol yn ogystal.

Gwelir cryn gysondeb yn y canlyniadau isod, gyda chanran uwch o ymatebwyr yn dymuno derbyn gwasanaethau ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg,; canrannau cymharol debyg yn dymuno derbyn gwasanaethau ar bapur ac wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, a chanrannau is yn dymuno derbyn galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.4. Rhwystrau rhag derbyn gwasanaethau Cymraeg

Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent wedi wynebu anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Gwelir mai'r rheswm a gafodd ei ddewis amlaf gan yr ymatebwyr oedd nad oedd cynnig o wasanaeth Gymraeg. Eto mae'n ddadlennol faint o'r ymatebwyr oedd yn nodi nad oedd gwasanaeth ar gael, neu nad oedd ganddynt yr hyder i ofyn am wasanaeth Cymraeg.

Ffigur 39: y rhesymau pam bod derbyn gwasanaethau Cymraeg wedi bod yn anodd




6.5. Barn ymatebwyr am wasanaethau Cymraeg a phwysigrwydd y Gymraeg

Rhodddwyd cyfres o ddatganiadau gwahanol i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau.

Ffigur 40: y graddau y mae'r ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod

● Cytuno'n gryf ● Tueddu i gytuno ● Ddim yn cytuno nac yn anghytuno ● Tueddu i anghytuno ● Anghytuno'n gryf ● Ddim yn gwybod



Mae'n ddiddorol bod safbwyntiau'r ymatebwyr yn gyffredinol fwy cadarnhaol i'r datganiadau hyn o gymharu â'r patrymau defnyddio'r Gymraeg sydd i'w gweld yng ngweddill y canlyniadau. Hynny yw, mae'n amlwg bod nifer helaeth o ymatebwyr sydd efallai yn gwneud ychydig iawn o ddefnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol yn gyffredinol gefnogol i'r Gymraeg ac yn dymuno mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil a gyhoeddodd y Comisiynydd yn 2023 ar [farn siaradwyr Cymraeg am addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog](#).

Er enghraifft, mae 41% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno y buasent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg petaent yn cael mwy o gyfleoedd i wneud hynny. Mae'r ffigwr yn codi i 63% ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl a 70% i'r rhai hynny ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Ar lefel

gyffredinol iawn mae'r canrannau hyn yn sylweddol uwch na'r canrannau o'r ymatebwyr oedd yn nodi eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn gwahanol gyd-destunau yn eu bywydau.

Yn yr un modd, mae 61% o'r sampl cyfan yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno eu bod yn falch o'r ffaith eu bod yn siarad Cymraeg. Wrth edrych ar y rhai oedd wedi derbyn addysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig mae'r ffigwr yma yn codi i 81% ac roedd llai na 5% o'r ymatebwyr hyn yn anghytuno'n gryf neu'n tueddu i anghytuno â'r datganiad. Mae yna neges bwysig yma, sef bod y rhai sydd wedi derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn debygol o fod yn siarad Cymraeg yn rhugl yn falch eu bod yn siarad Cymraeg, ac ar y cyfan yn awyddus i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu bywydau.

Er bod canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn amlygu'r heriau sylweddol sy'n bodoli o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, mae llygedyn o oleuni yn y ffaith bod gan fwyafrif siaradwyr Cymraeg ifanc agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a'u hunaniaeth.